**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

**30 Mawrth 2021**

**Crynodeb Gweithredol Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2020-21 i 2025-26**

**Adroddiad gan y Prif Gwnstabl a Phrif Swyddogion Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.**

**1.** Mae'r adroddiad amgaeedig yn bodloni gofynion Rheoli'r Trysorlys (TM) CIPFA yng Nghod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd angen ei ddilyn yn gyfreithiol. Mae'r brif ddogfen, y Strategaeth Gyfalaf, yn dod â'r Rhaglen Gyfalaf, Darpariaeth Refeniw ar gyfer Benthyca, Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Fuddsoddi a Dangosyddion y Trysorlys at ei gilydd. Y bwriad yw symleiddio'r hyn sy'n faes hynod dechnegol. Fodd bynnag, gan fod yr adroddiad yn parhau'n hynod dechnegol, bydd yr adroddiad eglurhaol hwn yn egluro'r diben cyffredinol yn gryno ac amlygu'r hyn y gofynnir i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gytuno iddo wrth fabwysiadu'r Strategaeth. Mae rhaid i'r Strategaeth a'i helfennau cyfansoddol gael eu cytuno'n flynyddol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Diben cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cydbwyllgor Archwilio yw ar gyfer trafodaeth a sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**2.** Nid oes newidiadau sylfaenol i'r strategaeth eleni (gweler newid bach ym mhwynt 12 isod).

**3.** Diben cyffredinol y Strategaeth Gyfalaf yw galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i:

- Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf yn ffurfiol (Atodiad A)
- Cytuno ar ba ddull sy'n cael ei fabwysiadau ar gyfer ad-dalu dyled drwy'r Datganiad Darparu Refeniw Sylfaenol (MRP) (Atodiad B)
- Cynnig fframwaith strategol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys sy'n cwmpasu benthyca ar gyfer gwariant cyfalaf a buddsoddi balansau sy'n weddill (Atodiad C)
- Cytuno ar Ddangosyddion y Trysorlys sy'n gosod cyfyngiadau ar lefelau benthyca, yn ogystal â chyfyngiadau ar y mathau o bartïon i gontract ar gyfer buddsoddiadau (Atodiad C)

**4.** Mae'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i chytuno gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel rhan o'r cylch cynllunio gan fwydo i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Ers hynny, mae ymarfer pellach wedi'i ymgymryd i ailasesu cyflwyno prosiectau cyfalaf unigol yn raddol sydd wedi arwain at newid yn amseru prosiectau ond nid y costau cyffredinol (Tabl 1 ac Atodiad A).

**5.** Gofyniad sylfaenol a hanfodol yw bod y Rhaglen Gyfalaf yn fforddiadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnir hyn drwy gyfuniad o gyllid allanol, adnoddau ein hunain (cyllideb neu gronfeydd wrth gefn mewn blwyddyn) neu ddyled. Mae'r rhaglen yn fforddiadwy a cheir y rhaniad mewn ariannu yn Nhabl 2.

**6.** Rhaid ad-dalu dyled. Gwneir hyn drwy'r gyllideb refeniw drwy'r ddarpariaeth refeniw sylfaenol. Mae canllawiau statudol o ran sut yr ad-delir y ddyled. Ad-delir dyled hanesyddol (cyn 2008) ar sail y rheolau a oedd mewn lle ar adeg y balans gostyngol o 4%. Ar gyfer gwariant cyfalaf a ysgwyddwyd wedi 31.3.2008 penderfynir ar y Ddarpariaeth Refeniw

Sylfaenol drwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol yr ased. Mae Tabl 3 yn crynhoi'r gost, a cheir manylion pellach yn Atodiad C.

**7.** Gelwir cyfanswm y ddyled o ran cyfalaf yn Ofyn Cyllido Cyfalaf (GCC). Crynhoir y symudiad yn y GCC yn Nhabl 4. Cynydda cyfanswm GCC o £30.5m ar 31.3.21 i £40.5m ar 31.3.2026.

**8.** Un ffynhonnell o gyllid mewnol yw Derbynebau Cyfalaf. Rhain yw'r enillion o werthu asedau. Gellir ond eu defnyddio ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf. Gwelir y symudiad arfaethedig mewn Derbynebau Cyfalaf yn Nhabl 5.

**9.** Mae strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn gysylltiedig â rheoli balansau arian parod o ran benthyca a buddsoddiadau. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau cronfeydd a dilynir gan hylifedd ac yna arenillion. Mae Adran 3 o'r Strategaeth Gyfalaf yn crynhoi strategaeth RhT gyda'r manylion yn Atodiad C.

**10.** O ran benthyg, delir y ddysgl yn wastad rhwng benthyca allanol a mewnol a benthyca tymor hir a thymor byr. Cymhlethir hyn ychydig gan incwm cyllid ddim yn cael ei dderbyn yn gyson drwy'r flwyddyn gydag un taliad mawr yn cael ei dderbyn bob mis Gorffennaf (Atodiad C, Graff 1). Mae gan fenthyciadau Tymor Byr gyfraddau llog is ond gall hyn newid dros amser.

**11.** Mae buddsoddiadau'n cael eu rheoli'n dynn gan leihau risg cyn belled ag y bo modd drwy reoli partïon i gontract drwy gyfraddau credyd a rhai eraill, a chyfyngu maint a hyd y buddsoddiadau.

**12.** Gwnaeth y Strategaeth flaenorol osod lefel hylifedd sylfaenol o £10m. Mae hyn wedi'i ehangu at ddibenion ymarferol er mwyn hefyd caniatáu cyfyngiad gweithredol is o £7.5 miliwn am uchafswm o 14 diwrnod. Mae hyn er mwyn osgoi benthyca tymor byr diangen (gweler Atodiad C, paragraff 6.3)

**13.** Mae Tabl 10 yn dangos cyfanswm costau cyllido fel canran o gyllideb refeniw net. Bwriedir i hyn gynyddu o 3.50% i 3.95% o 2021-22 i 2025-26.

**14.** Mae staff sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol ac wedi'u hyfforddi'n benodol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, buddsoddiadau a benthyca. Ar ben hyn cedwir ymgynghorwyr proffesiynol er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad yn y meysydd technegol hyn.

# Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2021/22

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad strategaeth gyfalaf hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel ar sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. Ceir hefyd trosolwg o sut mae risg cysylltiedig yn cael ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae wedi cael ei ysgrifennu mewn arddull hygyrch i wella dealltwriaeth aelodau o'r meysydd hyn sydd weithiau'n dechnegol.

1.2. Bydd gan benderfyniadau a wneir eleni ar gyfalaf a rheoli'r trysorlys ganlyniadau ariannol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am flynyddoedd i'r dyfodol. Maent felly'n destun fframwaith rheoleiddiol cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, a grynhoir yn yr adroddiad hwn.

## 2. Gwariant Cyfalaf a Chyllido

2.1. Gwariant cyfalaf yw lle mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a gaiff eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo cyrff eraill, a benthyciadau a grantiau i gyrff eraill sy'n eu galluogi i brynu asedau.

2.2. Cyflwynwyd y Rhaglen Gyfalaf ddrafft i'r Bwrdd Gweithredol Strategol (BGS) ar 21 Ionawr 2021 fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Cytunwyd ar y testun ar gyfer cadarnhad terfynol y Strategaeth Gyfalaf hon. Mae ymarfer pellach wedi'i ymgymryd i ailasesu cyflwyno prosiectau cyfalaf unigol yn raddol sydd wedi arwain at newid yn amseru prosiectau ond nid y costau cyffredinol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynllunio gwariant cyfalaf fel y crynhoir isod, gyda'r manylion fel y dangosir yn **Atodiad A**:

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **presennol 2019/20** | **rhagolwg 2020/21** | **cyllideb 2021/22** | **cyllideb 2022/23** | **cyllideb 2023/24** | **cyllideb 2024/25** | **cyllideb 2025/26** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | 6.4 | 6.1 | 15.1 | 17.8 | 5.0 | 5.6 | 5.4 |

2.3. **Llywodraethu**: Mae asedau a seilwaith y Comisiynydd Heddlu a Throsedd angen buddsoddiad parhaus er mwyn sicrhau amgylchfyd gweithio effeithlon a modern. Datblygwyd strategaethau ar gyfer Ystadau, TG a'r Fflyd llynedd ac amlinellwyd Rhaglen Gyfalaf newydd yn 2020-21. Mae gweithredu Ymgyrch Uplift, edrych ar y gofynion fel rhan o'r cylch cynllunio a chynllun adferiad COVID wedi arwain at ddiwygio'r Rhaglen arfaethedig. Mae COVID wedi arwain at ail-lunio'r Rhaglen oherwydd oedi. Mae prosiectau mawr fel y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) ac uwchraddio System Gorchymyn a Rheoli wedi bod o dan arolygiad hefyd. Crynodeb y newidiadau ym mhob maes yw:

- Rhaglen Ddiwygiedig Ystadau £17.3m – cynnydd o £0.427m o raglen llynedd
- Rhaglen Ddiwygiedig y Fflyd £8.2m – gostyngiad o £0.341m y flwyddyn o gyllid refeniw uniongyrchol
- Rhaglen Ddiwygiedig TG £21.1m –
    - Gofynion mawr hysbys at y dyfodol – Gorchymyn a Rheoli (£2.5m), ESN (£7.2m+£0.9m), Cyrchu TG (£1.0m)
    - Newid gliniaduron/2 mewn 1/Byrddau gwaith yn y dyfodol (£2.9m), Camerâu Corff (£1.0m), Life X(£1.1M) a phrosiectau llai eraill.

2.4. Rhaid i holl wariant cyfalaf gael ei gyllido, un ai o ffynonellau allanol (grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei hun (refeniw, cronfeydd wrth gefn a derbynebau cyfalaf) neu ddyled (benthyca, prydlesu a Menter Cyllid Breifat). Mae cyllido arfaethedig y gwariant uchod fel a ganlyn:

*Tabl 2: Cyllido cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **presennol 2019/20** | **rhagolwg 2020/21** | **cyllideb 2021/22** | **cyllideb 2022/23** | **cyllideb 2023/24** | **cyllideb 2024/25** | **cyllideb 2025/26** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Ffynonellau allanol | 0.5 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Adnoddau cyfalaf | 0.3 | 0.0 | 0.2 | 0.1 | 0.3 | 0.7 | 0.1 |
| Adnoddau refeniw | 3.7 | 3.3 | 7.4 | 4.2 | 2.1 | 2.1 | 2.0 |
| Dyled | 1.9 | 2.7 | 7.4 | 13.4 | 2.5 | 2.7 | 3.2 |
| **CYFANSWM** | **6.4** | **6.1** | **15.1** | **17.8** | **5.0** | **5.6** | **5.4** |

2.5. Mae dyled ond yn ffynhonnell gyllid dros dro, gan fod angen ad-dalu benthyciadau a phrydlesau. Disodlir hyn felly dros dro gan gyllido arall, fel arfer o refeniw a adwaenir fel darpariaeth refeniw sylfaenol (DRS). Fel arall, gellir defnyddio enillion o werthu asedau cyfalaf (a adwaenir fel derbynebau cyfalaf) i amnewid cyllid dyled. Mae ad-daliadau DRS Arfaethedig fel a ganlyn:

*Tabl 3: Amnewid cyllid dyled yn £ miliynau*

| | presennol 2019/20 | rhagolwg 2020/21 | cyllideb 2021/22 | cyllideb 2022/23 | cyllideb 2023/24 | cyllideb 2024/25 | cyllideb 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **DRS wedi'i gyllidebu (Adnoddau ei hun)** | 2.4 | 2.6 | 2.8 | 3.1 | 4.4 | 4.3 | 4.6 |

- Gwelir datganiad darpariaeth refeniw sylfaenol llawn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

2.6. Mesurir swm cyllid dyled gweddilliol cronnol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf a gyllidir gan ddyled ac yn gostwng a defnyddir DRS a derbynebau cyfalaf i ddisodli dyled. Disgwylir i'r GCC gynyddu £4.6m yn ystod 2021/22. Yn seiliedig ar y ffigyrau uchod am wariant a chyllido, mae GCC tybiedig y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel a ganlyn:

*Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Ofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | presennol 31.3.2020 | rhagolwg 31.3.2021 | cyllideb 31.3.2022 | cyllideb 31.3.2025 | cyllideb 31.3.2024 | cyllideb 31.3.2025 | cyllideb 31.3.2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Cyfanswm GCC** | 30.4 | 30.5 | 35.1 | 45.4 | 43.5 | 41.9 | 40.5 |

2.7. **Rheoli asedau:** Er mwyn sicrhau fod yr asedau cyfalaf yn parhau i fod o ddefnydd tymor hir, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd strategaeth rheoli asedau mewn lle.

2.8. **Gwaredu asedau:** Pan nad oes angen ased gyfalaf bellach, gellir ei werthu fel y gall yr enillion, a adwaenir fel derbynebau cyfalaf, eu gwario ar asedau newydd i ad-dalu dyled. Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl derbyn unrhyw dderbynebau cyfalaf sylweddol yn y blynyddoedd ariannol i ddod.

*Tabl 5: Derbynebau cyfalaf derbyniadwy mewn £ miliynau*

| | presennol 2019/20 | rhagolwg 2020/21 | cyllideb 2021/22 | cyllideb 2022/23 | cyllideb 2023/24 | cyllideb 2024/25 | cyllideb 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Balans agoriadol** | 0.0 | 0.1 | 2.0 | 2.8 | 2.9 | 3.0 | 2.7 |
| **Derbynebau** | 0.4 | 2.0 | 1.0 | 0.2 | 0.5 | 0.4 | 0.0 |
| **Defnydd** | 0.3 | 0.1 | 0.2 | 0.1 | 0.4 | 0.7 | 0.0 |

| wedi'i gyllidebu | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans** | **0.1** | **2.0** | **2.8** | **2.9** | **3.0** | **2.7** | **2.7** |

## 3. Rheoli'r Trysorlys

3.1. Mae rheoli'r trysorlys ynghylch cadw digon ond nid gormod o arian parod i fodloni anghenion gwario'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, wrth reoli'r risgiau ynghlwm. Buddsoddir arian parod dros ben hyd nes y bydd ei angen. Bodlonir prinder arian parod gan fenthyca, er mwyn osgoi balansau credyd neu orddrafftiau gormodol yn y cyfrif banc cyfredol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel arfer yn gyfoethog o ran arian parod yn y tymor byr wrth i incwm refeniw gael ei dderbyn cyn iddo gael ei wario. Ond mae'n dlawd o ran arian parod yn y tymor hir gan yr ysgwyddir gwariant cyfalaf cyn cael ei gyllido. Cyferbynnir arian parod refeniw dros ben yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf i leihau benthyca cyffredinol.

3.2. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (Atodiad C) yn gosod y ffiniau y llywodraethir a monitrir gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys. Mae'r rhain yn seiliedig ar flaenoriaethu diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac arenillion yn olaf. Mae hyn yn lleihau incwm buddsoddiad posibl ond yn lleihau'r risg o golli arian drwy fuddsoddiadau sydd â mwy o risg iddynt. Mae'r isod yn crynhoi prif bwyntiau Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

3.3. **Strategaeth fenthyca:** Prif amcanion y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca yw cyflawni cost cyllid isel ond sicr wrth gadw hyblygrwydd os yw cynlluniau'n newid yn y dyfodol. Mae'r amcanion hyn yn aml yn gwrthdaro, ac felly mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ceisio taro cydbwysedd rhwng benthyciadau tymor byr rhad (sydd ar gael ar hyn o bryd am oddeutu 0.10%) a benthyciadau cyfradd sefydlog tymor hir lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch (1.5 i 2.5% ar hyn o bryd).

3.4. Cydbwysir y Strategaeth Fenthyca hefyd gan y defnydd o arian parod refeniw sydd ar gael yn hytrach na'i fenthyca, a adwaenir fel benthyca mewnol. Mae benthyca mewnol wedi'i ddefnyddio'n helaeth dros y blynyddoedd diwethaf gan greu arbedion mewn taliadau llog y flwyddyn ac yn lleihau risg drwy beidio buddsoddi arian parod. Fodd bynnag, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu Cyfalaf wedi lleihau'r symiau sydd ar gael i fenthyca'n fewnol. Ffactor arall i'w ystyried yw nad yw incwm y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae hyn oherwydd Grant Pensiwn oddeutu £25m yn cael ei dalu mewn cyfandaliad bob mis Gorffennaf.

3.5. Ceir lefelau arfaethedig cyfanswm dyled dros ben y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (sy'n cynnwys benthyca, rhwymedigaethau PFI a phrydlesi) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod).

*Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | presennol 31.3.2020 | rhagolwg 31.3.2021 | cyllideb 31.3.2022 | cyllideb 31.3.2025 | cyllideb 31.3.2024 | cyllideb 31.3.2025 | cyllideb 31.3.2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| Dyled (yn cynnwys PFI a phrydlesi) | 24.8 | 18.4 | 17.1 | 15.7 | 14.1 | 12.5 | 10.7 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 30.4 | 30.5 | 35.1 | 45.4 | 43.5 | 41.9 | 40.5 |

3.6. Y canllawiau statudol yw y dylai dyled barhau islaw y gofyn cyllido cyfalaf, oni bai yn y tymor byr. Fel y gellir gweld o dabl 6, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.

3.7. **Meincnod rhwymedigaeth:** Cymharu benthyca presennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn erbyn strategaeth amgen. Mae meincnod rhwymedigaeth wedi'i gyfrifo'n dangos y lefel risg isel o fenthyca. Mae hyn yn derbyn bod arian balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw i lefel sylfaenol o £10m ar bob diwedd blwyddyn.

*Tabl 7: Benthyca a'r Meincnod Rhwymedigaeth mewn £ miliynau*

| | presennol 31.3.2020 | rhagolwg 31.3.2021 | cyllideb 31.3.2022 | cyllideb 31.3.2025 | cyllideb 31.3.2024 | cyllideb 31.3.2025 | cyllideb 31.3.2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| Benthyca heb ei gasglu | 14.9 | 9.4 | 8.9 | 8.4 | 7.9 | 7.4 | 6.9 |
| Meincnod rhwymedigaeth | 9.4 | -1.3 | 11.9 | 26.5 | 28.6 | 29.0 | 29.5 |

*Mae'r benthyca dros ben yn y tabl uchod yn dangos y lefel bresennol o fenthyca ymrwymedig, ac mae'r meincnod dyled yn dangos yr uchafswm y byddwn efallai angen ei fenthyca er mwyn cadw balansau arian parod a buddsoddiadau uwchben £10m. Bydd lefel presennol benthyca yn dibynnu ar lif arian parod drwy gydol y flwyddyn a bydd yn rhywle rhwng y ddwy lefel a amlinellir uchod.*

3.8. **Terfyn benthyca fforddiadwy:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhwymedig yn gyfreithiol i osod terfyn benthyca fforddiadwy (a elwir hefyd y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn a'i gadw o dan adolygiad. Yn unol â chanllaw statudol, gosodir "ffin weithrediadol" is fel lefel rhybudd os yw dyled yn nesáu at y terfyn.

*Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Terfyn awdurdodedig a ffin weithrediadol ar gyfer dyled allanol mewn £miliynau*

| | **terfyn 2020/21** | **terfyn 2021/22** | **terfyn 2022/23** | **terfyn 2023/24** | **terfyn 2024/25** | **terfyn 2025/26** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Terfyn awdurdodedig - benthyca | 25.8 | 27.9 | 39.1 | 38.3 | 37.8 | 37.6 |
| Terfyn awdurdodedig – PFI a phrydlesi | 9.1 | 8.2 | 7.3 | 6.2 | 5.1 | 3.9 |
| Terfyn awdurdodedig – cyfanswm dyled allanol | **34.9** | **36.1** | **46.4** | **44.5** | **42.9** | **41.5** |
| Ffin weithrediadol – benthyca | 23.8 | 25.9 | 37.1 | 36.3 | 35.8 | 35.6 |
| Ffin weithrediadol - PFI a phrydlesi | 9.1 | 8.2 | 7.3 | 6.2 | 5.1 | 3.9 |
| Ffin weithrediadol – cyfanswm dyled allanol | **32.9** | **34.1** | **44.4** | **42.5** | **40.9** | **39.5** |

Mae manylion pellach ar fenthyca yn strategaeth rheoli'r trysorlys.

3.9. **Strategaeth fuddsoddi'r Trysorlys:** Mae buddsoddiadau trysorlys yn codi o dderbyn arian parod cyn y caiff ei dalu allan eto. Ni ystyrir buddsoddiadau a wnaed am resymau gwasanaeth neu am fantais ariannol yn unig yn rhan o reoli'r trysorlys fel arfer.

3.10. Polisi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros arenillion. Hynny yw, canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach na chwyddo elw. Buddsoddir arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor agos yn ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill neu fanciau ansawdd uchel dethol, i leihau'r risg o golled. Bydd arian a gedwir am dymhorau hirach yn cael eu buddsoddi'n ehangach, gan gynnwys mewn bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, i fantoli'r risg o golled yn erbyn y risg o dderbyn elw islaw chwyddiant. Gall buddsoddiadau tymor agos a thymor hirach gael eu cadw mewn cronfeydd cronedig, lle mae rheolwr cronfa allanol yn gwneud penderfyniadau ar ba fuddsoddiadau penodol i'w prynu. Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ofyn am ei arian yn ôl ar fyr rybudd.

*Tabl 9: Buddsoddiadau rheoli'r Trysorlys mewn £ miliynau*

| | **presennol 31.3.2020** | **rhagolwg 31.3.2021** | **cyllideb 31.3.2022** | **cyllideb 31.3.2025** | **cyllideb 31.3.2024** | **cyllideb 31.3.2025** | **cyllideb 31.3.2026** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Buddsoddiadau tymor agos | 15.5 | 20.6 | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 |
| Buddsoddiadau tymor hirach | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **15.5** | **20.6** | **10.0** | **10.0** | **10.0** | **10.0** | **10.0** |

3.11. **Rheoli risg:** Mae rheoli risg yn effeithiol yn brif amcanion gweithgarwch rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae strategaeth rheoli'r trysorlys felly yn amlinellu dangosyddion a chyfyngiadau amrywiol er mwyn cyfyngu'r risg o golledion annisgwyl. Mae'n manylu i ba raddau y gall deilliadau ariannol gael eu defnyddio er mwyn rheoli risgiau'r trysorlys.

3.12. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau a benthyca rheoli'r trysorlys yn ddyddiol. Maent felly'n cael eu hanfon i'r Pennaeth Cyllid a staff, sy'n gorfod gweithredu yn unol â strategaeth rheoli'r trysorlys a gymeradwyir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cydbwyllgor Archwilio (CA). Cyflwynir adroddiadau diwedd blwyddyn a hanner blwyddyn ar weithgarwch rheoli'r trysorlys i'r BGS a'r CA. Mae'r CA yn gyfrifol am graffu penderfyniadau rheoli'r trysorlys.

3.13. **Rhwymedigaethau:** Yn ychwanegol at y ddyled a fanylir uchod, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymroddedig i wneud taliadau yn y dyfodol er mwyn gofalu am ei gostau cronfeydd pensiwn. Mae cynllun pensiwn Swyddogion Heddlu yn gynllun heb ei ariannu sydd dan warant y Llywodraeth. Mae'r dyledion yn £1,793.0m ar 31.3.20. Y gost i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw'r gyfradd cyfraniad cyflogwr, sydd ar hyn o bryd yn 31%. Roedd y diffyg ar y gronfa Pensiwn Staff yn £60m ar 31.3.20. Rheolir hyn hefyd drwy'r gyfradd gyfraniad sydd ar hyn o bryd wedi'i gosod ar 19%. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi neilltuo £1.2m fel darpariaeth i ofalu am risgiau o hawliadau yswiriant ac achosion cyflogaeth. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd mewn risg o orfod talu am hawliadau a gofnodir gyda Thribiwnlys Cyflogaeth Canol Llundain. Mae'r risgiau hyn wedi'u cydnabod fel Dyledion wrth Gefn yn y Datganiad Cyfrifon, ond nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi neilltuo unrhyw arian oherwydd mae'r hawliadau'n amodol ar apêl. Mae ansicrwydd hefyd o ran cywiro a chwantwm.

- **Llywodraethu (dyledion):** Gwneir penderfyniadau ar dynnu dyledion â disgresiwn gan Dîm y Prif Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i Brif Swyddog Cyllid. Monitrir y risg o ddyledion sy'n crisialu ac angen taliad gan Gyllid Corfforaethol a'i adrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol (BRhS) a'r BGS yn ôl yr angen. Ceir manylion am ddyledion wrth gefn ar 31 Mawrth yn y Datganiad Cyfrifon.

## 4. Goblygiadau Cyllideb Refeniw

4.1. Er na chodir gwariant cyfalaf yn uniongyrchol i'r gyllideb refeniw, mae llog sy'n daladwy ar fenthyciadau, DRS ar gyfer lleihau'r GCC a chyfraniad refeniw uniongyrchol i gyfalaf wedi'u codi ar refeniw, wedi'u gwrthbwyso gan unrhyw incwm buddsoddiad a dderbynnir. Adwaenir y gost flynyddol net fel costau cyllido. Cymharir hyn a'r ffrwd refeniw net h.y. y nifer a ariennir gan Dreth Cyngor y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a grantiau llywodraeth cyffredinol.

*Tabl 10: Dangosydd Darbodus: Cyfran o gostau cyllido i ffrwd refeniw net*

| | **presennol 2019/20** | **rhagolwg 2020/21** | **cyllideb 2021/22** | **cyllideb 2022/23** | **cyllideb 2023/24** | **cyllideb 2024/25** | **cyllideb 2025/26** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Costau cyllido (£m) | 6.1 | 6.3 | 6.1 | 6.1 | 7.3 | 7.2 | 7.5 |
| Cyfran o ffrwd refeniw net (%) | 3.95% | 3.87% | 3.50% | 3.43% | 4.03% | 3.92% | 3.95% |

4.2. **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur tymor hir iawn gwariant a chyllido cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw gwariant a dynnir yn y blynyddoedd nesaf yn ymestyn am hyd at 50 mlynedd i'r dyfodol. Mae Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae hyn gan fod ffrydiau refeniw neu gronfeydd wrth gefn mewn lle i ariannu'r Rhaglen fel yr amlinellir. Mae'n debygol y bydd angen cyllidebu adnoddau ychwanegol ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol tu hwnt i'r Rhaglen bresennol.

## 5. <u>Gwybodaeth a Sgiliau</u>

5.1. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyflogi staff sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol ac yn brofiadol mewn safleoedd uwch gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi. Darperir hyfforddiant i holl staff sydd ynghlwm â gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi.

5.2. Os nad oes gan staff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, defnyddir ymgynghorwyr allanol ac ymgynghorwyr sy'n arbenigwyr yn eu maes. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar hyn o bryd yn cyflogi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Mae'n cyflogi Wilks Head and Eve fel ymgynghorwyr eiddo. Mae'n cyflogi BDO fel ymgynghorwyr treth. Mae'r agwedd hon yn fwy cost effeithiol na defnyddio'r fath staff yn uniongyrchol. Mae'n sicrhau fod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i lefel o risg.

# ATODIAD A

| Disgrifiad | 2020-21<br>Amcangyfrif Diwygiedig | 2021-22<br>Amcan | 2022-23<br>Amcan | 2023-24<br>Amcan | 2024-25<br>Amcan | 2025-26<br>Amcan | Cyfanswm Costau Prosiect (yn cynnwys cyn 20-21) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **<u>Rhaglen Stadau</u>** | | | | | | | |
| Cadw, Ymgynghoriad a System Ansawdd | **25** | | | | | | **25** |
| Gwelliannau Cynaliadwyedd | **0** | 202 | 100 | 100 | 100 | 100 | **602** |
| **Amcangyfrif stadau 25-26 ymlaen** | | | | | | 2,000 | **2,000** |
| Gorsaf Heddlu Pwllheli | **879** | | | | | | **980** |
| Gorsaf Heddlu Caergybi | **0** | 750 | 2,593 | | | | **3,343** |
| Cyfadeilad a Chantîn Pencadlys yr Heddlu | **175** | | | | | | **175** |
| Ardal Stadau Caernarfon a Gogledd Gwynedd | **0** | 800 | | | | | **800** |
| VCC / Gweithdy Cerbydau | **800** | 2,070 | | | | | **2,870** |
| Gorsaf Heddlu Dolgellau | | | | | 1,000 | | **1,000** |
| Gorsaf Heddlu Abergele | | | 391 | | | | **391** |
| Gorsaf Heddlu Llanrwst | | | | | 178 | | **178** |
| Hyb Sir y Fflint | | 500 | 4,000 | 1,500 | | | **6,000** |
| Uwchraddio Ystafell Reoli'r Heddlu | | | 100 | | | | **100** |
| Storfa Archif | | | | 750 | | | **750** |
| Gorsaf Heddlu Rhosllannerchrugog | | | | | 190 | | **190** |
| Adleoli/cydleoli/gwagio | **0** | 350 | | | | | **350** |
| CCC Dalfa | **0** | | | | | | **0** |
| Gwaith Safle Drylliau Tanio | **10** | 282 | | | | | **391** |
| GT - Achrediad ISO SARC | | 150 | | | | | **150** |
| **Cyfanswm Gwaith Adeiladu** | **1,889** | **5,104** | **7,184** | **2,350** | **1,468** | **2,100** | **20,295** |
| | | | | | | | |
| **<u>Cerbydau ac Offer Eraill</u>** | | | | | | | |
| Rhaglen Amnewid Prynu Cerbydau | **1,850** | 1,847 | 1,981 | 1,426 | 1,426 | 1,426 | **9,956** |
| Datblygiad Tranman | **0** | 75 | | | | | **75** |
| System Dexun (Canolfan Reoli Strategol) | **22** | | | | | | **78** |
| Intoxilator x 3 | **30** | | | | | | **30** |
| Amnewid ANPR | **0** | 470 | | | | | **470** |
| Offer Arolygu Gwrthdrawiadau | **131** | | | | | | **131** |
| **Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill** | **2,033** | **2,392** | **1,981** | **1,426** | **1,426** | **1,426** | **10,740** |

| Disgrifiad | 2020-21<br>Amcangyfrif Diwygiedig | 2021-22<br>Amcan | 2022-23<br>Amcan | 2023-24<br>Amcan | 2024-25<br>Amcan | 2025-26<br>Amcan | Cyfanswm Costau Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Technoleg Gwybodaeth ac Offer Cyfathrebu** | | | | | | | |
| Amnewid Bwrdd Gwaith (Rhaglen Amnewid) | **1,100** | 437 | 750 | 750 | 750 | 300 | **6,960** |
| Cypyrddau bach ar gyfer llwytho a storio | **50** | 150 | | | | | **200** |
| Ap ffôn symudol | | 471 | | | | | 471 |
| Amnewid Gweinydd | | 700 | | | | 700 | **2,072** |
| Gweinyddwyr Systemau Busnes (Rhaglen Amnewid) | | 145 | | | | 150 | **457** |
| Teclynnau data symudol | **0** | 566 | | | 0 | 460 | **1,976** |
| Airwave (unedau amnewid) | **79** | | | | | | **533** |
| Amnewid Gweinydd DFU | | | | 270 | | | **562** |
| Ap Ymatebydd Symudol | **0** | 0 | | | | | **114** |
| Seilwaith NEP/Sail Point/Dolenni Rhyngrwyd | **430** | 146 | | | | | **1,265** |
| Meddalwedd Cysylltedd | **0** | | | | | | **0** |
| Wifi | **52** | 354 | | | | | **500** |
| Deunydd Clyweledol Gweithle Digidol | **0** | 126 | | | | | **200** |
| Hafan Ar-lein Unigol (Cyswllt Cyhoeddus Digidol) | | 0 | | | | | **0** |
| Cudd-wybodaeth ac Ymchwilio Digidol | | 196 | | | | | **196** |
| Awtomeiddio DFU | **15** | | | | | | **15** |
| Rheoli Tystiolaeth Ddigidol | **125** | | | | | | **125** |
| Teleffoni CISCO | **0** | 250 | | | | | **250** |
| Uwchraddio Cof Nexus | **13** | 37 | | | | | **50** |
| Ategu | **30** | | | | | | **157** |
| LAN | **20** | 60 | | | | | **80** |
| Systemau digymorth (Cofrestr Risg) | **86** | 38 | | | | | **124** |
| Cyfnod 1 Uwchraddiad ICAD | **105** | 25 | | | | | **172** |
| Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli - Cyfnod 2 | | 2,458 | | | | | 2,458 |
| Camerâu Corff | **60** | | | | | | 592 |
| Diweddariad GIS | **0** | | | | | | 70 |
| GPLl – Diogelwch Cymunedol - Atal | | 30 | | | | | 30 |
| GT – System (RIPA) Gwyliadwriaeth Safon COTS | | 80 | | | | | 80 |
| GT – system CHIS | | 88 | | | | | 88 |
| DPS – Hyfforddiant Rhithwir 360 | | **53** | | | | | 53 |
| Digidol – BIU – Warws Data Gwybodaeth Rheolwyr | | **50** | | | | | 50 |
| Modiwl newydd CHORUS | | **35** | | | | | 35 |
| Strategaeth Gyrchu TGCh | | **250** | **750** | | | | 1,000 |
| Lleoli Life-X | | | **300** | | **800** | | 1,100 |
| Rhwydwaith Gwasanaethau Brys | | **686** | **6,560** | | **900** | | 8,146 |
| Ail-greu Teclyn NEP | | **175** | | | | | 175 |
| Camerâu corff (costau amnewid) | | | **244** | **243** | **244** | **244** | 974 |
| **Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | **2,165** | **7,606** | **8,604** | **1,263** | **2,694** | **1,854** | **31,330** |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **6,087** | **15,102** | **17,769** | **5,039** | **5,588** | **5,380** | **62,365** |

| Disgrifiad | 2020-21<br>Amcangyfrif Diwygiedig<br>£000 | 2021-22<br>Amcan<br>£000 | 2022-23<br>Amcan<br>£000 | 2023-24<br>Amcan<br>£000 | 2024-25<br>Amcan<br>£000 | 2025-26<br>Amcan<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Gwaith Adeiladu | 1,889 | 5,104 | 7,184 | 2,350 | 1,468 | 2,100 |
| Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill | 2,033 | 2,392 | 1,981 | 1,426 | 1,426 | 1,426 |
| Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 2,165 | 7,606 | 8,604 | 1,263 | 2,694 | 1,854 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **6,087** | **15,102** | **17,769** | **5,039** | **5,588** | **5,380** |
| | | | | | | |
| Cyllid | | | | | | |
| Grant Swyddfa Gartref | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 |
| Cyfraniad Refeniw | 2,691 | 2,070 | 2,054 | 2,053 | 2,053 | 1,968 |
| Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi | 539 | 5,289 | 2,100 | 0 | 0 | 0 |
| Derbynebau Cyfalaf | 55 | 242 | 100 | 370 | 750 | 100 |
| Benthyca ar gyfer Stadau | 1,854 | 4,580 | 7,084 | 2,250 | 718 | 2,000 |
| Benthyca ar gyfer rhaglen amnewid | 825 | 2,798 | 6,308 | 243 | 1,944 | 1,189 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **6,087** | **15,102** | **17,769** | **5,039** | **5,588** | **5,380** |
| Ffynonellau allanol | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 |
| Adnoddau ei hun | 3,285 | 7,601 | 4,254 | 2,423 | 2,803 | 2,068 |
| Dyled | 2,679 | 7,378 | 13,392 | 2,493 | 2,662 | 3,189 |
| **CYFANSWM** | **6,087** | **15,102** | **17,769** | **5,039** | **5,588** | **5,380** |

**Atodiad B**

**Datganiad Darpariaeth Refeniw Sylfaenol Blynyddol 2021/22**

Os yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyllido gwariant cyfalaf yn ôl dyled, dylai neilltuo adnoddau er mwyn ad-dalu'r ddyled hon mewn blynyddoedd i ddod. Adwaenir y swm a godir i'r gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled fel Darpariaeth Refeniw Sylfaenol (DRS), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae *Deddf Llywodraeth Leol 2003* yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ystyried *Canllawiau Darpariaeth Refeniw Sylfaenol* Llywodraeth Cymru (Canllawiau LlC) a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar yn 2018.

Nod eang Canllawiau LlC yw sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu dros gyfnod sydd naill ai'n rhesymol gymesur â'r hyn y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion drosto, neu, yn achos benthyca gyda chefnogaeth Grant Cymorth Refeniw'r Llywodraeth, yn weddol gymesur â'r cyfnod sydd ymhlyg wrth benderfynu ar y grant hwnnw.

Mae Canllawiau LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo Datganiad DRS Blynyddol bob blwyddyn. Mae'n argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DRS. Mae'r datganiad canlynol ond yn cynnwys opsiynau a argymhellir yn y Canllawiau:

- Ar gyfer gwariant cyfalaf a dynnwyd cyn 1 Ebrill 2008, penderfynir ar y DRS fel 4% o'r gofyniad cyllido cyfalaf o ran y gwariant hwnnw. *(Opsiwn 2)*
- Ar gyfer gwariant cyfalaf a dynnwyd wedi 31 Mawrth 2008 penderfynir ar y DRS drwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased perthnasol mewn rhandaliadau cyfartal. Dechreuir yn y flwyddyn wedi i'r ased fynd ar waith. Codir DRS ar bryniannau ar dir rhydd-ddaliadol dros 50 mlynedd. Bydd DRS ar wariant amherthnasol i asedau sefydlog ond sydd wedi cael eu cyfalafu drwy reoleiddiad neu gyfeiriad yn cael eu codi dros 20 mlynedd. *(Opsiwn 3)*
- Ar gyfer asedau a geir drwy brydlesi neu'r Fenter Cyllid Preifat, penderfynir ar DRS fel bod yn gyfartal i elfen o'r rhent neu gost sy'n mynd at ysgrifennu i lawr rhwymedigaeth y fantolen.

Ni fydd gwariant cyfalaf a dynnwyd yn ystod 2021/22 yn amodol ar gost DRS tan 2022/23.

Ar sail amcangyfrif diweddaraf y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o'i ofyn cyllido cyfalaf (GCC) ar 31 Mawrth 2021, mae'r gyllideb ar gyfer DRS wedi'i osod fel a ganlyn:

| | **31.03.2021 GCC Amcangyfrifedig £m** | **DRS Amcangyfrifedig 2021/22 £** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 | 7.5 | 0.3 |
| Gwariant cyfalaf ar ôl 31.03.2008 | 13.9 | 1.6 |
| Phrydlesi a Menter Cyllid Preifat | 9.1 | 0.9 |
| **Cyfanswm GCC Cronfa Gyffredinol** | **30.5** | **2.8** |

**Atodiad C**

**Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22**

## 1. Cyflwyniad

**1.1.** Rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian parod, benthyca a buddsoddiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian. Mae felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd a'r effaith refeniw o newid cyfraddau llog. Mae llwyddo i nodi, monitro a rheoli risgiau ariannol felly'n ganolog i reolaeth ariannol ddarbodus y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**1.2.** Cynhelir rheoli risg y trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o fewn fframwaith *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice 2017 Edition* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (y Cod CIPFA). Mae'n gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. At hyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru rannu Canllawiau diwygiedig ar Fuddsoddiadau Lleol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ym mis Tachwedd 2019 sy'n gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo strategaeth fuddsoddiadau cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i ystyried Cod CIPFA a Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**1.3.** **Strategaeth ddiwygiedig:** Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, gofynnir i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys os newidia'r tybiaethau y mae'r adroddiad hwn wedi'u seilio arnynt yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid annisgwyl mawr mewn cyfraddau llog, yn rhaglen gyfalaf y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu yn y lefel o'i falans buddsoddiad.

## 2. Cyd-destun Allanol

**2.1.** **Cefndir economaidd:** Bydd effaith coronafeirws ar y DU, mesurau cyfyngiadau symud, cyflwyno brechlynnau, ynghyd â threfniadau masnachu newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn parhau i fod yn ddylanwadau mawr ar strategaeth rheoli trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2021/22.

**2.2.** Roedd Banc Lloegr yn cadw Cyfradd Banc ar 0.10% ym mis Rhagfyr 2020 a'i raglen Lleddfu Meintiol ar £895 biliwn ar ôl ei ymestyn £150 biliwn yn y mis blaenorol. Gwnaeth y Pwyllgor Polisi Ariannol (PPA) bleidleisio'n unfrydol am y ddau, er ni chrybwyllwyd y defnydd posib yn y dyfodol o gyfraddau llog negyddol. Yn rhagolygon Adroddiad Polisi Ariannol (APA) mis Tachwedd, mae'r Banc yn disgwyl i economi'r DU grebachu -2% yn Ch4 2020 cyn cynyddu 7.25% yn 2021, sy'n is na'r rhagolwg blaenorol o 9%. Mae Banc Lloegr hefyd yn rhagolygu y bydd yr economi yn awr yn cymryd tan Ch1 2022 i gyrraedd ei lefel cyn y pandemig yn hytrach na diwedd 2021 fel y rhagolygwyd yn flaenorol. Erbyn cyhoeddiad PPA mis Rhagfyr, cymeradwywyd brechlyn COVID-19 i'w ddefnyddio. Nododd y Banc y byddai'n lleihau peth o'r risgiau anfanteisiol i'r rhagolwg economaidd a amlinellwyd yn PPA mis Tachwedd.

**2.3.** Cofrestrwyd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) y DU ar gyfer mis Tachwedd 0.3% o un flwyddyn i'r llall, i lawr o 0.7% yn y mis blaenorol. Syrthiodd chwyddiant creiddiol, sy'n eithrio'r cydrannau mwy cyfnewidiol, i 1.1% o 1.5%. Dangosodd y data marchnad llafur diweddaraf ar gyfer y tri mis hyd at fis Hydref 2020 fod y gyfradd ddiweithdra wedi codi i 4.9% tra syrthiodd y gyfradd gyflogaeth i 75.2%. Disgwylir i'r ddau fesuriad ddirywio ymhellach oherwydd effaith parhaus coronafeirws ar y farchnad swyddi, yn enwedig pan mae cynlluniau cadw swyddi amrywiol y llywodraeth yn dechrau llacio yn 2021. Mae Banc Lloegr yn rhagolygu y bydd diweithdra yn cyrraedd uchafbwynt ar 7.75% yn Ch2 2021.

Ym mis Hydref, y brif gyfradd twf blynyddol cyfartalog am bob 3 mis ar gyfer cyflogau oedd 2.7% am gyfanswm cyflog a 2.8% am gyflog rheolaidd. Mewn termau real, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, cynyddodd twf cyfanswm cyflog 1.9% tra cynyddodd cyflog rheolaidd 2.1%.

**2.4.** Adlamodd twf Cynnydd Domestig Gros 16.0% yn Ch3 2020 ar ôl syrthio -18.8% yn yr ail chwarter, gyda'r gyfradd flynyddol yn codi i -8.6% o -20.8%. Gwnaeth yr holl sectorau godi bob chwarter, gydag enillion dramatig mewn adeiladu (41.2%), a ddilynwyd gan wasanaethau a chynhyrchu (ill dau'n 14.7%). Mae amcangyfrifon GDP misol wedi dangos yr adferiad economaidd yn arafu ac mae'n parhau ymhell islaw ei frig cyn y pandemig. Wrth edrych ymlaen, mae APA mis Tachwedd Banc Lloegr yn rhagolygu y bydd twf economaidd yn tyfu yn 2021 gyda GDP yn cyrraedd 11% yn Ch4 2021, 3.1% yn Ch4 2022 ac 1.6% yn Ch4 2023.

**2.5.** Adlamodd twf GDP yn Ardal yr Ewro 12.7% yn Ch3 2020 ar ôl crebachu -37% a -11.8% yn y chwarter cyntaf a'r ail chwarter, yn y drefn honno. Mae prif chwyddiant, fodd bynnag, yn parhau'n hynod wan, gan gofrestru -0.3% o un flwyddyn i'r llall ym mis Tachwedd, y pedwerydd mis olynol o chwyddiant. Cofrestrodd chwyddiant craidd 0.2% o un flwyddyn i'r llall, sydd ymhell islaw targed Banc Canolog Ewrop o 'islaw, ond yn agos i 2%'. Disgwylir i Fanc Canolog Ewrop parhau i gadw ei brif gyfradd llog o 0% a chyfradd cyfleuster blaendal o -0.5% am beth amser. Ond fe wnaeth ehangu ei ysgogiad ariannol ym mis Rhagfyr 2020. Cynyddodd faint ei gynllun prynu asedau i €1.85 triliwn a'i ymestyn tan fis Mawrth 2022.

**2.6.** Crebachodd economi'r UD ar gyfradd flynyddol o 31.4% yn Ch2 2020 ac yna adlamu 33.4% yn Ch3. Gwnaeth y Gronfa Ffederal wrth Gefn gynnal cyfradd y Cronfeydd Ffederal rhwng 0% a 0.25%. Cyhoeddodd newid i'w threfn targedu chwyddiant i ffurf fwy hyblyg o dargedu cyfartalog. Gwnaeth y Ffed hefyd ddarparu arwyddion cryf nad yw cyfraddau llog yn debygol o newid o lefelau presennol dros y tair blynedd nesaf.

**2.7.** Enillodd y cyn is-arlywydd Joe Biden etholiad arlywyddol yr UD 2020. Mae Mr Biden yn blaenoriaethu mynd i'r afael â choronafeirws a bydd hefyd yn dileu sawl gorchymyn gweithredol a lofnodwyd gan ei ragflaenydd. Bydd yn dychwelyd yr UD i gytundeb hinsawdd Paris a Sefydliad Iechyd y Byd.

**2.8.** **Rhagolwg credyd:** Ar ôl codi ar ddiwedd mis Mawrth ar ôl i'r coronafeirws ddod yn bandemig byd-eang ac yna codi eto ym mis Hydref/Tachwedd, mae prisiau cyfnewid diofyn credyd ar gyfer banciau mwy'r DU wedi syrthio'n raddol yn ôl i lefelau cyn y pandemig bron. Er bod ansicrwydd ynghylch benthyciadau COVID-19 diofyn yn arwain at fanciau'n darparu biliynau am golledion posibl yn hanner cyntaf 2020, gan ostwng elw'n llwyr, roedd diffygion hysbys ar gyfer Ch3 yn llawer llai mewn rhai sefydliadau. Fodd bynnag, gall proffidioldeb banc cyffredinol yn 2020 a 2021 fod yn sylweddol is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Diraddiwyd statws credyd llawer o sefydliadau'r DU yn sgil diraddiadau i'r gyfradd sofran. Yn fwy cyffredinol mewn banciau a chymdeithasau adeiladu er hynny, mae amodau credyd wedi tueddu i fod yn eithaf ffafriol, er effaith y pandemig.

**2.9.** Wrth edrych ymlaen, mae'r posibilrwydd i golledion banc fod yn fwy na'r disgwyl pan mae cymorth y llywodraeth a'r banc canolog yn dechrau cael ei dynnu yn parhau'n risg. Mae hyn yn awgrymu y parheir i gynghori ymdriniaeth bwyllog o ran blaendaliadau banc yn 2021/22.

**2.10.** **Rhagolwg cyfradd llog:** Mae Arlingclose, sef ymgynghorydd rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yn rhagweld y bydd Cyfradd Banc Lloegr yn parhau ar 0.1% tan o leiaf chwarter cyntaf 2024. Tybir fod y risgiau i'r rhagolwg hwn yn anfantais gan fod Banc Lloegr a llywodraeth y DU yn parhau i ymateb i bandemig y coronafeirws a threfniadau masnachu newydd yr UE. Ymestynnodd Banc Lloegr ei raglen prynu asedau i £895 biliwn ym mis Tachwedd gan oedi'r Gyfradd Banc a glynu at y safle hwn ym

mis Rhagfyr. Fodd bynnag, ni ellir diystyru toriadau cyfradd log bellach i sero, neu o bosib i negatif, eto. Ond nid yw hyn yn rhan o ragolwg canolog Arlingclose.

**2.11.** Disgwylir i arenillion gilt barhau'n isel iawn yn y tymor canolig. Yn y cyfamser mae arenillion tymor byr yn debygol o aros yn is neu ar sero tan amser o'r fath wrth i Fanc Lloegr ddiystyru'r siawns o gyfraddau llog negatif yn llwyr neu mae rhagolygon twf/chwyddiant yn gwella. Yr achos canolog yw i arenillion gilt 10 mlynedd ac 20 mlynedd godi oddeutu 0.60% a 0.90% yn y drefn honno dros y gorwel amser. Tybir fod y risgiau ynghylch rhagolygon arenillion gilt i fod yn fanteisiol ac anfanteisiol. Ond bydd anwadalrwydd tymor byr yn sicr bron oherwydd ansicrwydd a digwyddiadau economaidd a gwleidyddol.

**2.12.** Mae rhagolwg cyfraddau llog ac economaidd mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose ynghlwm yn **Atodiad C.1.**

## 3. <u>Cyd-destun Lleol</u>

**3.1.** Ar 31 Mawrth 2021, disgwylir i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadw £9.4m o fenthyca a £20.6m o fuddsoddiadau'r trysorlys. Ceir newidiadau rhagolwg yn y symiau hyn yn y dadansoddiad o'r fantolen yn nhabl 1 isod.

*Tabl 1: Crynodeb mantolen a rhagolwg*

| | **Presennol 31.3.20 £m** | **Amcangyfrif 31.3.21 £m** | **Rhagolwg 31.3.22 £m** | **Rhagolwg 31.3.23 £m** | **Rhagolwg 31.3.24 £m** | **Rhagolwg 31.3.25 £m** | **Rhagolwg 31.3.26 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GCC Cronfa Gyffredinol | 30.4 | **30.5** | **35.1** | **45.4** | **43.5** | **41.9** | **40.5** |
| Llai: Rhwymedigaethau dyled eraill * | -9.9 | -9.1 | -8.2 | -7.3 | -6.2 | -5.1 | -3.9 |
| **GCC Benthyciadau** | **20.5** | **21.4** | **26.9** | **38.1** | **37.3** | **36.8** | **36.6** |
| Llai: Benthyca allanol (tymor hir)** | -9.9 | -9.4 | -8.9 | -8.4 | -7.9 | -7.4 | -6.9 |
| Llai: Benthyca allanol (tymor byr)** | -5.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Benthyca mewnol** | **5.6** | **12.1** | **18.0** | **29.7** | **29.4** | **29.4** | **29.7** |
| Llai: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | -25.2 | -28.7 | -25.2 | -21.8 | -18.9 | -18.0 | -17.3 |
| Mwy: Cyfalaf gweithio | 4.1 | -4.0 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| **Benthyca newydd / (Buddsoddiadau)** | **-15.5** | **-20.6** | **-7.0** | **8.1** | **10.7** | **11.6** | **12.6** |

* prydlesi a dyledion PFI sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

** ond yn dangos benthyciadau y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymroddedig iddynt ac sy'n eithrio ail-ariannu opsiynol

**3.2.** Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a chyfalaf gweithio yn adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth bresennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw cynnal benthyca a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol. Adwaenir hwy weithiau fel benthyca mewnol.

**3.3.** Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd GCC cynyddol oherwydd y rhaglen gyfalaf, ond ychydig iawn o fuddsoddiadau. Felly bydd angen iddo fenthyg hyd at £22m dros y cyfnod rhagolwg er mwyn cynnal lefel gadarnhaol o hylifedd (gweler 3.5 isod hefyd).

**3.4.** Mae *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fod yn is na'i ragolwg GCC uchaf dros y tair blynedd nesaf. Mae Tabl 1 yn dangos fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl cydymffurfio gyda'r argymhelliad hwn yn ystod 2021/22.

**3.5.** **Meincnod rhwymedigaeth:** Cymharu benthyca presennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn erbyn strategaeth amgen. Mae meincnod rhwymedigaeth wedi'i gyfrifo'n dangos y lefel risg isel o fenthyca. Mae hyn yn derbyn yr un rhagolygon â thabl 1 uchod, ond bod balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw i lefel sylfaenol o **£10m** ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau risg o gredyd.

*Tabl 2: Meincnod rhwymedigaeth*

| | **Presennol 31.3.20 £m** | **Amcangyfrif 31.3.21 £m** | **Rhagolwg 31.3.22 £m** | **Rhagolwg 31.3.23 £m** | **Rhagolwg 31.3.24 £m** | **Rhagolwg 31.3.25 £m** | **Rhagolwg 31.3.26 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GCC Benthyciadau | 20.5 | 21.4 | 26.9 | 38.1 | 37.3 | 36.8 | 36.6 |
| Llai: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | -25.2 | -28.7 | -25.2 | -21.8 | -18.9 | -18.0 | -17.3 |
| Mwy: Cyfalaf gweithio | 4.1 | -4.0 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| **Gofyniad Benthyca Net / (Buddsoddiadau)** | **-0.6** | **-11.3** | **1.9** | **16.5** | **18.6** | **19.0** | **19.5** |
| Buddsoddiadau sylfaenol | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 |
| **Meincnod Rhwymedigaeth** | **9.4** | **-1.3** | **11.9** | **26.5** | **28.6** | **29.0** | **29.5** |

3.6. Yn dilyn o'r rhagolygon tymor canolog yn nhabl 2 uchod, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn bwriadu parhau wedi'i fenthyg yn unol â'i feincnod dyledion a rhagolwg llif arian parod er mwyn lleihau risg. Mae'r rhagolwg llif arian parod yn adlewyrchu'r lefelau i fyny ac i lawr dros y flwyddyn ariannol lle mae'r meincnod dyledion yn adlewyrchu pwynt penodol mewn amser.

## 4. <u>Strategaeth Fenthyca</u>

4.1. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar hyn o bryd yn meddu £9.4 miliwn o fenthyciadau, gostyngiad o £5.5 miliwn ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol. Mae'r rhagolwg mantolen yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl angen benthyg yn 2021/22. Fodd bynnag, gall y

Comisiynydd Heddlu a Throsedd fenthyg i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod o flaen llaw, ar yr amod nad yw hyn yn mynd tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyg sef £27.9 miliwn.

4.2. **Amcanion:** Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca arian yw taro cydbwysedd risg isel rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cronfeydd. Mae hyblygrwydd i ail-drafod benthyciadau os yw cynlluniau tymor hir y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn newid yn amcan eilradd.

4.3. **Strategaeth:** Gan ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus ac yn benodol i nawdd llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i ymdrin â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb gyfaddawdu sefydlogrwydd tymor hirach y portffolio dyled. Gyda chyfraddau llog tymor byr ar hyn o bryd yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr i un ai ddefnyddio adnoddau mewnol, neu'n hytrach gael benthyciadau tymor hir.

4.4. Drwy wneud hynny, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gallu lleihau costau benthyca net (er incwm buddsoddi rhagweladwy) a lleihau risg trysorlys cyffredinol. Monitrir manteision benthyca mewnol / tymor byr yn rheolaidd yn erbyn y posibilrwydd o ysgwyddo costau ychwanegol drwy ohirio benthyca i flynyddoedd yn y dyfodol pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi'n gymedrol. Gwnaiff Arlingclose gynorthwyo'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyda'r 'gost o gario' hon a dadansoddiad a dadansoddiad o dalu costau. Gall ei allbwn benderfynu a yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog tymor hir yn 2021/22. Bwriedir cadw costau llog yn y dyfodol yn isel, hyd yn oed os yw hyn yn achosi cost ychwanegol yn y tymor byr.

4.5. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi codi ei holl fenthyca tymor hir o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) ond fe wnaeth y llywodraeth gynyddu cyfraddau BBGC 1% ym mis Hydref 2019 gan ei wneud yn awr yn opsiwn eithaf drud. Daeth ymgynghoriad Trysorlys EM ar ostwng cyfraddau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i ben ym mis Gorffennaf 2020 ond mae'r llywodraeth eto i gyhoeddi ei hymateb. Yn y cyfamser, bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried benthyciadau tymor hir gan ffynonellau eraill sy'n cynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol. Mae hyn er mwyn gostwng costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell o gyllid yn unol â'r Cod CIPFA.

4.6. Fel arall, gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drefnu benthyciadau dechrau yn y dyfodol, lle mae'r gyfradd llog yn sefydlog o flaen llaw, ond derbynnir yr arian parod yn ddiweddarach. Byddai hyn yn galluogi sicrwydd cost i'w gyflawni heb ddioddef cost o gynnal yn y cyfnod yn y canol.

4.7. Ar ben hyn, gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael benthyciadau tymor byr i ofalu am brinder llif arian parod nas cynlluniwyd.

4.8. **Ffynonellau benthyca:** Ffynonellau cymeradwy benthyca tymor hir a thymor byr yw:

- Cyfleuster benthyca PWLB Trysorlys EM (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn flaenorol)
- unrhyw sefydliad sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer buddsoddiad (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff sector cyhoeddus arall yn y DU
- Cronfeydd pensiwn sectorau cyhoeddus a phreifat y DU (oni bai am Gronfa Bensiwn Gwynedd)
- buddsoddwyr bond marchnad cyfalaf

4.9. **Ffynonellau eraill o gyllid dyled:** Yn ychwanegol, gall cyllid cyfalaf gael ei godi drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyca, ond a all gael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau dyled eraill:

- prydlesu


- hurbrynu
- Menter Cyllid Preifat (PFI)
- gwerthiant ac adlesu

**4.10. Benthyciadau tymor byr a chyfraddau amrywiol:** Mae'r benthyciadau hyn yn gadael y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn agored i'r risg o gynnydd cyfradd llog tymor byr. Mae felly'n amodol ar y terfynau dadlennu cyfradd llog yn y dangosyddion rheoli'r trysorlys isod**. Aildrefnu dyled:** Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn caniatáu awdurdodau i ad-dalu benthyciadau cyn aeddfedrwydd ac un ai talu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn ôl fformiwla wedi'i osod yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Gall benthycwyr eraill fod yn barod hefyd i drafod termau adbrynu cynamserol. Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fanteisio ar hyn a disodli rhai benthyciadau gyda benthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb ddisodli. Gwneir hyn os disgwylir iddo arwain at arbediad cost cyffredinol neu ostyngiad mewn risg.

## 5. Strategaeth Fuddsoddi'r Trysorlys:

**5.1.** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw cronfeydd sylweddol wedi'u buddsoddi, sy'n mynegi incwm a dderbynnir o flaen gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiad trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi bod rhwng £8.8 miliwn (ar 29 Mehefin 2020) a £42.2 miliwn (ar 15 Gorffennaf 2020). Disgwylir i batrymau tebyg gael eu cynnal yn y flwyddyn i ddod.

*Graff 1: Balans buddsoddi dyddiol (2020-21)*




**5.2. Amcanion:** Mae Cod CIPFA a Chanllawiau LlC yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn fwy darbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd uchaf o elw, neu arenillion. Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan leihau'r risg o dynnu colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas. Os disgwylir i falansau gael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd anelu i gyflawni dychweliad llwyr sy'n gyfartal neu'n uwch na'r gyfradd chwyddiant cyffredinol. Gwneir hyn er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddwyd.

**5.3. Cyfraddau llog negyddol:** Mae pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r risg y gwnaiff Banc Lloegr osod ei Gyfradd Banc ar neu o dan sero, sy'n debygol o fwydo i gyfraddau llog negyddol ar holl opsiynau buddsoddi risg isel a thymor byr. Gan na all buddsoddiadau dalu incwm negyddol, defnyddir cyfraddau

negyddol drwy leihau gwerth buddsoddiadau. Ar yr achlysur hwn, mesurir diogelwch fel derbyn y swm a gytunwyd yn gyfamodol ar aeddfedrwydd, er y gall hyn fod yn llai na'r swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol.

5.4. **Strategaeth:** Er bod risg cynyddol ac elw isel iawn o fuddsoddiadau banc anwarantedig tymor byr, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn anelu i barhau i fuddsoddi mewn buddsoddiadau banc tymor byr yn ystod 2021/22. Mae hyn yn cyd-daro â'r strategaeth fenthyca fewnol, gan leihau'r symiau a fuddsoddir (a risg cysylltiedig) a chwyddo arenillion (drwy leihau taliadau llog).

5.5. **Cynlluniau busnes:** O dan safon IFRS 9 newydd, mae cadw cyfrifon ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "gynllun busnes" y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer eu rheoli. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn anelu i gyflawni gwerth o'i fuddsoddiadau trysorlys gan gynllun busnes o gasglu'r llif arian cyfamodol. Felly, lle bodlonir meini prawf eraill hefyd, parheir i ateb am y buddsoddiadau hyn am gost wedi'i dileu.

5.6. **Partïon i gontract cymeradwy:** Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gydag unrhyw un o'r mathau o bartïon i gontract yn nhabl 3 isod, sy'n amodol ar y terfynau a ddangosir.

*Tabl 3: Partïon i gontract a chyfyngiadau'r buddsoddi'r trysorlys*

| **Sector** | **Terfyn parti i gontract** | **Terfyn sector** |
|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | Diderfyn | amherthnasol |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | £7m | Diderfyn |
| HSBC1* | £10m | amherthnasol |
| Buddsoddiadau gwarantedig* | £7m | Diderfyn |
| Banciau (anwarantedig)* | £4m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (anwarantedig)* | £4m | Diderfyn |
| Darparwyr cofrestredig (anwarantedig) * | £4m | £4m |
| Cronfeydd marchnad arian * | £4m | Diderfyn |
| Cronfeydd cronedig strategol* | £4m | £4m |

1 Rhain yw bancwyr y Comisiynydd. Maent ar hyn o bryd â statws AA- gan Fitch sef yr asiantaeth statws credyd.

Rhaid i'r tabl hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r nodiadau isod

5.7. **Statws credyd sylfaenol:** Bydd buddsoddiadau'r trysorlys yn y sectorau a nodir gyda seren ond yn cael eu gwneud gydag endidau lle nad yw statws credyd tymor hir cyhoeddedig isaf yn is na A-. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddosbarth buddsoddiad lle bo'n bosibl. Fel arall defnyddir y statws credyd parti i gontract. Fodd bynnag, ni wneir y penderfyniadau buddsoddi ar sail statws credyd yn unig, ac ystyrir holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol.

**5.8. Llywodraeth:** Benthyciadau i, bondiau a biliau a rennir neu a warentir gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygiad amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn amodol ar ryddhad. Fel arfer mae risg is o fethdaliad, er nad ydynt yn risg sero. Ystyrir buddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU i fod yn risg credyd sero oherwydd ei gallu i greu arian ychwanegol.

**5.9. Buddsoddiadau gwarantedig:** Buddsoddiadau a warantwyd ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion posibl mewn achos o fethdaliad. Bydd nifer ac ansawdd y gwarantiad yn ffactor allweddol yn y penderfyniad i fuddsoddi. Mae bondiau a ofelir amdanynt a chytundebau adbrynu gwrthdro a chytundebau cyfochrog eraill gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio o ryddhad. Defnyddir y statws credyd cyfochrog uchaf a'r statws credyd parti i gontract os nad oes statws credyd penodol i fuddsoddiad, ond fod gan y warant gyfochrog y gwarantir y buddsoddiad statws credyd. Ni wnaiff y buddsoddiadau gwarantedig ac anwarantedig gydag unrhyw un parti i gontract fynd tu hwnt i'r terfyn arian parod ar gyfer buddsoddiadau gwarantedig.

**5.10. Banciau a chymdeithasau adeiladu (anwarantedig):** Cyfrifon, blaendaliadau, tystysgrifau blaendal a banciau anwarantedig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, oni bai am fanciau datblygiad amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn amodol ar y risg o golli credyd drwy ryddhad os yw'r rheolydd yn penderfynu fod y banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau o ran cyfrifon banc gweithrediadol.

**5.11. Darparwyr cofrestredig (anwarantedig)** Benthyciadau i, bondiau a biliau a rennir neu a warentir gan ddarparwyr cofrestredig tai cymdeithasol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a adwaenid yn flaenorol fel cymdeithasau tai. Rheoleiddir y cyrff hyn gan y Rheolydd Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheolydd Tai'r Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Gymunedau (yng Ngogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn cadw mewn cof y tebygolrwydd o dderbyn cymorth gan y llywodraeth os oes angen.

**5.12. Cronfeydd marchnad arian:** Cronfeydd cronedig sy'n cynnig hylifedd ar yr un diwrnod neu ar fyr rybudd a chyfnewidioldeb isel iawn neu ddim o gwbl drwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddynt y fantais dros gyfrifon banc o roi risgiau amrywiaeth buddsoddi eang, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa proffesiynol yn gyfnewid am ffi. Er nad oes terfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ofalu amrywio ei fuddsoddiadau hylifedd dros amrywiaeth o ddarparwr er mwyn sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

**5.13. Cronfeydd cronedig strategol:** Cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo sy'n cynnig elw uwch dros y tymor hirach, ond yn fwy cyfnewidiol yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu'r Heddlu a Throsedd i amrywio i ddosbarthiadau ased oni bai am arian parod heb orfod bod yn berchen neu reoli'r buddsoddiadau sylfaenol. Gan nad oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond sydd ar gael i'w rhyddhau wedi cyfnod rhybudd, caiff eu cyflawniad a'u haddasrwydd parhaus wrth fodloni amcanion buddsoddi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd eu monitro'n rheolaidd.

**5.14. Cyfrifon banc gweithredol:** Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd dynnu newidiadau gweithredol, er enghraifft drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casgliad a gwasanaethau caffael masnachwyr, i unrhyw fanc y DU gyda statws credyd dim is na BBB- a chydag asedau mwy na £25 biliwn. Ni ddosberthir y rhain fel buddsoddiadau, ond maent dal yn amodol ar risg ryddhad gan fanc. Bydd balansau felly yn cael eu cadw o dan £10 miliwn am bob banc. Mae Banc Lloegr

wedi dweud mewn methiant, mae banciau gydag asedau mwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o gael eu rhyddhau na mynd yn ddyledus, gan gynyddu'r siawns o'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnal parhad gweithredol.

**5.15. Asesiad risg a statws credyd**: Ceir a monitrir statws credyd gan ymgynghorwyr trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, a wnaiff hysbysu am newidiadau mewn statws wrth iddynt ddigwydd. Pan israddir statws credyd endid fel ei fod yn methu bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy:

- ni wneir buddsoddiadau newydd,
- bydd unrhyw fuddsoddiadau sy'n bodoli a all eu hadalw neu eu gwerthu am ddim cost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i'r adalwad neu werthiant holl fuddsoddiadau eraill sy'n bodoli gyda'r parti i gontract a effeithir.

**5.16.** Os yw asiantaeth statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu am israddiad posibl (a adwaenir hefyd fel "gwyliwr negyddol") fel y gall syrthio o dan y meini prawf statws cymeradwy, yna dim ond buddsoddiadau a ellir eu tynnu ar y diwrnod gwaith nesaf a wneir gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negyddol, sy'n dangos cyfeiriad symudiad tymor hir yn hytrach na newid statws sydd ar fin digwydd.

**5.17. Gwybodaeth arall ar warant buddsoddiadau**: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn deall fod statws credyd yn broffwydi diffyg buddsoddiad da, ond nad ydynt yn berffaith. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar safon credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt. Mae hyn yn cynnwys prisiau cyfnewid diffyg credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth llywodraeth posibl, adroddiadau yn y wasg ariannol safonol a dadansoddiad a chyngor gan ymgynghorydd rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ni wneir buddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarnhaol am ei safon credyd, er y gall fodloni'r meini prawf uchod fel arall.

**5.18.** Wrth ddirywio mae amodau'r farchnad ariannol yn effeithio ar werth credyd holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 a 2020. Ni adlewyrchir hyn yn gyffredinol mewn statws credyd, ond gellir ei weld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny sydd â safon credyd uwch a lleihau hyd fwyaf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel gwarantiad gofynnol. Bydd graddau'r terfynau hyn yn unol â phrif amodau marchnad ariannol. Os yw'r terfynau hyn yn golygu fod sefydliadau masnachol annigonol o safon credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, bydd y gweddill yn cael ei flaendalu gyda Llywodraeth y DU, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi elw buddsoddi i syrthio ond bydd y prif swm a fuddsoddwyd yn cael ei warchod.

**5.19. Terfynau buddsoddiad**: Rhagwelir y bydd cronfeydd refeniw wrth gefn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sydd ar gael i ofalu am golledion buddsoddiad yn £28.7 miliwn ar 31 Mawrth 2021. Bydd grŵp o endidau o dan yr un perchennog yn cael eu trin fel sefydliad unigol at ddibenion terfyn. Mae dadleniadau risg credyd sy'n codi o fuddsoddiadau sydd ddim i'r trysorlys, deilliadau a balansau ariannol sy'n fwy na £10,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

**5.20. Rheoli hylifedd**: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn defnyddio dulliau rhagolygu llif arian pwrpasol i benderfynu ar y cyfnod mwyaf y gall cronfeydd gael eu cyflwyno'n ddoeth. Cesglir y rhagolwg ar sail ddoeth i leihau'r risg o'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu

gorfodi i fenthyca ar delerau anffafriol i fodloni ei ymrwymiadau ariannol. Gosodir terfynau ar fuddsoddiadau tymor byr gan gyfeiriad at gynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn lledaenu ei arian parod hylifedd ymysg darparwyr cymeradwy (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian). Mae hyn er mwyn sicrhau y cynhelir mynediad at arian parod mewn anawsterau gweithredol at unrhyw un darparwr.

## 6. Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

**6.1.** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur a rheoli ei ddadleniadau at risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

**6.2.** **Gwarantiad:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gosod statws credyd sylfaenol o A- ar gyfer buddsoddiadau.

| **Dangosydd risg credyd** | **Targed** |
|---|---|
| Statws credyd sylfaenol ar gyfer buddsoddiadau | A- |

**6.3.** **Hylifedd:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro maint yr arian parod sydd ar gael i fodloni taliadau annisgwyl o fewn cyfnod o ddeuddeg mis treiglol. Gosodir cyfyngiad gweithredol is o £7.5 miliwn am uchafswm o 14 diwrnod at ddibenion ymarferol er mwyn osgoi benthyca tymor byr diangen.

| **Dangosydd risg hylifedd** | **Terfyn** |
|---|---|
| Lleiafswm arian parod sydd ar gael o fewn 12 mis | £10m |
| Terfyn is am uchafswm o 14 diwrnod | £7.5m |

**6.4.** **Amlygiadau cyfradd llog:**: Mae'r dangosydd hwn ar fin rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg cyfradd llog. Bydd terfynau uwch ar effaith refeniw un flwyddyn cynnydd neu gwymp o 1% mewn cyfraddau llog yn:

| **Dangosydd risg cyfradd llog** | **Terfyn** |
|---|---|
| Terfyn uwch ar effaith refeniw un flwyddyn o 1% o gynnydd mewn cyfraddau llog | £50,000 |
| Terfyn uwch ar effaith refeniw un flwyddyn o 1% o gwymp mewn cyfraddau llog | £50,000 |

Cyfrifir effaith newid mewn cyfraddau llog ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau aeddfed yn cael eu disodli ar gyfraddau cyfredol.

**6.5.** **Strwythur aeddfedrwydd benthyca:** Mae'r dangosydd hwn ar fin rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg ariannu eto. Terfynau uchaf ac isaf ar y strwythur aeddfedrwydd benthyca fydd:

| **Dangosydd risg cyfradd ariannu eto** | **Terfyn uchaf** | **Terfyn isaf** |
|---|---|---|
| O dan 12 mis | 100% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 100% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 100% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 100% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf bob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

6.6. **Prif symiau a fuddsoddwyd am gyfnodau hirach na blwyddyn:** Diben y dangosydd hwn yw rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg colledion drwy geisio ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Y terfynau ar y swm cyfalaf tymor hir a fuddsoddwyd i aeddfedrwydd terfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fydd:

| **Dangosydd risg prisiau** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|
| Terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £5m | £3m | £1m |

## 7. Materion Perthnasol

7.1. Mae Cod CIPFA yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnwys y canlynol yn ei strategaeth rheoli'r trysorlys.

7.2. **Deilliadau ariannol:** Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol pendant i wneud hynny, ni wnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddefnyddio deilliadau ariannol unigol (megis cyfnewidiadau, symud ymlaen, y dyfodol ac opsiynau). Gall deilliadau wedi'u gosod i fenthyciadau a buddsoddiadau, sy'n cynnwys cronfeydd cronedig ac wedi symud trafodion dechrau ymlaen, eu defnyddio. Rheolir y risgiau a berir yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risgiau'r trysorlys.

7.3. **Marchnadoedd yn y Gyfarwyddeb Cyfryngau Ariannol**: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi optio i fyny at statws cleient proffesiynol gyda'i ddarparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr cronfa. Mae'n caniatáu mynediad iddo at ystod mwy o wasanaethau ond heb yr amddiffyniadau rheoleiddiol a roddir i unigolion a chwmnïau bach. O ystyried maint ac ystod gweithgarwch rheoli trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'r Prif Swyddog Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws mwyaf priodol.

7.4. **Canllaw Llywodraeth:** Ceir materion pellach sy'n ofynnol gan Ganllawiau LlC yn **Atodiad C.2.**

## 8. Goblygiadau Ariannol

8.1. Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddiad yn 2021/22 yw £0.1 miliwn, yn seiliedig ar bortffolio buddsoddiad cyfartalog o £10 miliwn ar gyfradd llog o 0.01%. Y gyllideb ar gyfer llog dyled a delir yn 2021/22 yw £0.166 miliwn, yn seiliedig ar fenthyciadau dyled cyfartalog wedi'u neilltuo ac amcangyfrif i ofalu am fenthyca tymor byr posibl. Os yw lefelau buddsoddiadau a benthyca gwirioneddol, neu gyfraddau llog gwirioneddol, yn wahanol i'r rhai hynny a ragwelwyd, bydd cyflawniad yn erbyn cyllideb yn gyfatebol wahanol.

## 9. Opsiynau Eraill i'w Hystyried

9.1. Nid yw Canllawiau LlC a Chod CIPFA yn nodi unrhyw strategaeth rheoli'r trysorlys benodol i awdurdodau lleol ei mabwysiadu. Wedi ymgynghori'r Cydbwyllgor Archwilio, cred y Prif Swyddog Cyllid fod y strategaeth uchod yn dangos cydbwysedd priodol rhwng rheoli risgiau ac

effeithiolrwydd cost. Rhestrir strategaeth eraill, gyda'u goblygiadau ariannol a rheoli risgiau, isod.

| Dewis arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn ystod gulach o bartïon i gontract a/neu am amseroedd byrrach | Bydd incwm llog yn is | Llai o siawns am golledion o ddiffygion credyd, ond gall colledion o'r fath fod yn fwy |
| Buddsoddi mewn ystod ehangach o bartïon i gontract a/neu am amseroedd hirach | Bydd incwm llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ddiffygion credyd, ond gall colledion o'r fath fod yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog tymor hir | Gwnaiff costau llog dyledion godi. Mae hyn yn annhebygol o gael ei unioni gan incwm buddsoddiad uwch | Balans buddsoddiad uwch yn arwain at effaith uwch pan mae diffyg. Fodd bynnag gall costau llog tymor hir fod yn fwy penodol |
| Benthyca benthyciadau tymor byr neu amrywiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog tymor hir | Bydd costau llog dyledion yn is i ddechrau | Bydd cynnydd mewn costau llog dyledion yn cael eu hunioni'n eang drwy godi incwm buddsoddiad yn y tymor canolog, ond gall costau tymor hir fod yn llai sicr |
| Lleihau lefel benthyca | Mae arbed ar log dyledion yn debygol o fynd tu hwnt i incwm buddsoddiad a gollwyd | Balans buddsoddiad gostyngol yn arwain at effaith is pan mae diffyg. Fodd bynnag gall costau llog tymor hir fod yn llai sicr |

**Atodiad C.1**

**Rhagolwg Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose – Rhagfyr 2020**

**Tybiaethau sylfaenol:**

- Mae'r rhagolygon economaidd byd-eang tymor canolig wedi gwella gyda dyrannu brechlynnau. Ond mae'r don ddiweddar mewn achosion coronafeirws wedi gwaethygu rhagolygon economaidd dros y tymor byr.
- Mae mesurau cyfyngedig a chyfyngiadau symud pellach yn debygol o barhau yn y DU ac Ewrop hyd nes y bydd y mwyafrif o'r boblogaeth yn cael ei brechu erbyn ail hanner 2021. Bydd y cyfnod adfer yn gryf wedi hynny, ond o bosib yn hirach nag y rhagwelwyd yn flaenorol.
- Roedd arwyddion o adferiad economaidd yn arafu yn y DU eisoes i'w weld mewn data GDP a PMI misol y DU. Roedd hyn hyd yn oed cyn yr ail gyfyngiadau symud a chyfyngiadau Haen 4. Mae cyflogaeth yn gostwng er estyniad i becynnau cymorth.
- Bydd yr angen i gynorthwyo adferiadau economaidd a defnyddio capasiti sbâr yn arwain at fanciau canolog yn cynnal cyfraddau llog isel am y tymor canolig.
- Bydd Brexit yn pwyso ar weithgarwch y DU. Bydd effaith gyfunol Brexit a sgil effeithiau'r pandemig yn taflu dŵr oer dros dwf sy'n berthnasol i gymheiriaid, cynnal capasiti sbâr a chyfyngu chwyddiant a grëir gartref. Bydd Banc Lloegr felly'n cynnal amodau ariannol llac i'r dyfodol hyd y gellir rhagweld.
- Bydd arenillion tymor hirach hefyd yn parhau'n llesg, wedi'u hangori gan gyfraddau polisi banc canolog isel, disgwyliadau am gyfraddau hyd yn oed yn is o bosib a disgwyliadau chwyddiant tymor hirach diflas. Mae siawns y gall arenillion fynd ar drywydd ychydig yn wahanol yn y tymor canolig. Mae hyn yn dibynnu ar ganfyddiadau buddsoddwyr am dwf a chwyddiant, neu ar sut y dosberthir brechlynnau.

**Rhagolwg:**

- Mae Arlingclose yn disgwyl i'r Gyfradd Banc aros ar y lefel bresennol o 0.10%.
- Ein hachos canolog am Gyfradd Banc yw dim newid, ond ni ellir llwyr ddiystyru toriadau pellach i sero, neu efallai i diriogaeth negyddol hyd yn oed.
- Bydd arenillion gilt yn parhau'n isel yn y tymor canolig. Mae arenillion gilt tymor byrrach yn negyddol ar hyn o bryd. Byddant yn parhau o amgylch sero neu'n is hyd nes bydd y Banc yn diystyru Cyfradd Banc yn ffurfiol neu mae rhagolygon twf/chwyddiant yn gwella.
- Mae risgiau i'r anfanteision yn parhau, ac yn wir i'w gweld yn cynyddu, yn y tymor agos, wrth i'r llywodraeth ymateb i'r cynnydd mewn cyfraddau heintio a daw cyfnod pontio Brexit i ben.

| | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 | Dec-21 | Mar-22 | Jun-22 | Sep-22 | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 | Mar-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 |
| Arlingclose Central Case | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 |
| Downside risk | 0.30 | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| 3-month money market r | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.05 | 0.05 | 0.10 | 0.10 | 0.15 | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 |
| Arlingclose Central Case | 0.10 | 0.10 | 0.15 | 0.15 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 |
| Downside risk | 0.30 | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| 1yr money market rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.05 | 0.05 | 0.10 | 0.10 | 0.15 | 0.20 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| Arlingclose Central Case | 0.15 | 0.15 | 0.25 | 0.25 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 |
| Downside risk | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 | 0.15 |
| 5yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.65 | 0.65 | 0.70 | 0.70 |
| Arlingclose Central Case | 0.00 | 0.00 | 0.05 | 0.10 | 0.15 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |
| Downside risk | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| 10yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.30 | 0.35 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.65 | 0.65 | 0.70 | 0.70 |
| Arlingclose Central Case | 0.25 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 |
| Downside risk | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 |
| 20yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.65 | 0.65 | 0.70 | 0.70 |
| Arlingclose Central Case | 0.70 | 0.70 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.80 | 0.80 | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 0.90 |
| Downside risk | 0.30 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| 50yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.65 | 0.65 | 0.70 | 0.70 |
| Arlingclose Central Case | 0.60 | 0.60 | 0.65 | 0.65 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.80 | 0.80 |
| Downside risk | 0.30 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |

**PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%**
**PWLB Infrastructure Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.60%**

**Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru**

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Canllawiau Buddsoddi diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sy'n gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn hanfodol i brosesau rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau sydd ddim yn rhan o reoli'r trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddiad a benthyciadau i sefydliadau lleol.

**Cyfraniad:** Mae buddsoddiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyfrannu at ei amcanion cyflawni gwasanaeth ac yn cynorthwyo gweithgarwch rheoli'r trysorlys effeithiol.

**Newid hinsawdd:** Mae penderfyniadau buddsoddi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried risgiau hinsawdd tymor hir i gynorthwyo economi carbon isel.

**Buddsoddiadau penodol**: Mae Canllawiau LlC yn diffinio buddsoddiadau manwl fel y rhai hynny:

- a enwyd mewn punt sterling,
- sydd i fod i gael ei ad-dalu o fewn 12 mis o drefniant oni bai bod y parti i gontract yn Awdurdod lleol,
- nas diffinnir fel gwariant cyfalaf yn ôl deddfwriaeth, a
- buddsoddwyd gydag un:
    - Llywodraeth y DU,
    - Awdurdod lleol yn y DU, cyngor plwyf neu gyngor cymuned, neu
    - corff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn diffinio sefydliadau a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel y rhai hynny sydd â statws credyd o A- neu'n uwch a leolir yn y DU neu wlad dramor gyda statws sofran o AA+ neu'n uwch. Diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai hynny sydd â statws credyd o A- neu'n uwch mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cronedig eraill.

**Benthyciadau:** Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn diffinio benthyciad fel cytundeb ysgrifenedig neu lafar lle mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn trosglwyddo arian parod dros dro i drydydd parti, menter ar y cyd, is-gwmni neu gyswllt sy'n cytuno ar ddychweliad yn ôl y telerau ac amodau o dderbyn y benthyciad, oni bai mai'r trydydd parti ydy Comisiynydd Heddlu a Throsedd lleol arall. Nid ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn darparu benthyciadau o'r natur hwn.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn defnyddio cynllun 'colled credyd disgwyliedig' wedi'i ganiatáu ar gyfer benthyciadau a derbyniadau fel yr amlinellir yn *Offerynnau Ariannol Safon 9 Adrodd Ariannol Rhyngwladol* fel y mabwysiadwyd gan arferion iawn i fesur risg credyd ei bortffolio benthyciadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i'r rheolau cymorth gwladwriaethol a chyfraith cystadleuaeth. Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drefniadau rheoli credyd priodol er mwyn casglu ad-daliadau hwyr sydd mewn grym.

**Buddsoddiadau heb eu nodi**: Diffinnir unrhyw fuddsoddiad ariannol sydd ddim yn bodloni'r diffiniad o fuddsoddiad penodol neu fenthyciad fel heb ei nodi. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori hwn ond yn berthnasol i unedau mewn cronfeydd a chyfranddaliadau cronnus mewn cwmnïau. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadarnhau nad oes ganddo fuddsoddiadau amhenodol ar hyn o bryd.

**Buddsoddiadau heb fod yn ariannol:** Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau heb fod yn ariannol a gedwir yn bennaf neu'n rhannol er mwyn creu elw, yn bennaf eiddo buddsoddi. Penderfynir ar ddiogelwch drwy gymharu pris prynu bob ased i'w werth teg gan ddefnyddio'r cynllun yn Safon

Cyfrifyddu Rhyngwladol 40: Eiddo Buddsoddiad fel yr addaswyd gan arferion iawn. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadarnhau nad oes ganddo fuddsoddiadau heb fod yn ariannol ar hyn o bryd.
**Ymgynghorwyr buddsoddiad:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Rheolir ansawdd y gwasanaeth hwn gan gyfarfodydd strategaeth rheolaidd, adolygu data a ddarparwyd a synnwyr proffesiynol.

**Buddsoddi arian a fenthycwyd o flaen angen**: Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, o dro i dro, fenthyca o flaen angen, lle disgwylir i hyn ddarparu gwerth am arian tymor hir gorau. Gan y buddsoddir symiau a fenthyciwyd hyd nes y gwarir hwy, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg golli'r symiau a fenthyciwyd a'r risg y gall buddsoddiadau a benthyg cyfraddau llog newid yn y canol. Rheolir y risgiau hyn fel rhan o reolaeth gyffredinol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o'i risgiau trysorlys.

Ni wnaiff y cyfanswm a fenthycwyd fynd tu hwnt i'r terfyn benthyca awdurdodedig o £36.1 miliwn. Disgwylir i'r cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwariant fod yn ddwy flynedd, er nid oes angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

**Capasiti a sgiliau:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyflogi staff sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol ac yn brofiadol mewn safleoedd uwch gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi. Darperir hyfforddiant i holl staff sydd ynghlwm â gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi.

**Llywodraethu corfforaethol:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau a benthyca rheoli'r trysorlys yn ddyddiol. Maent felly'n cael eu hanfon i'r Pennaeth Cyllid a staff, sy'n gorfod gweithredu yn unol â strategaeth rheoli'r trysorlys a gymeradwyir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cydbwyllgor Archwilio (CA). Cyflwynir adroddiadau diwedd blwyddyn a hanner blwyddyn ar weithgarwch rheoli'r trysorlys i'r BGS a'r CA. Mae'r CA yn gyfrifol am graffu penderfyniadau rheoli'r trysorlys.